**Sesiwn 2000-2001 Rhif 38**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig** (15 munud)
Mae rhestr o’r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe’r Siambr)

**Cymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi darganfod unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2000;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2000.

***Mae'r gwelliant canlynol wedi ei gyflwyno:***

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwaneger fel pwynt bwled newydd

(c) yn mynd ati i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cyfrifiad 'Uned Lafur' pan eir ati yn y dyfodol i adolygu'r cynllun er mwyn cynyddu'r cymorth i fusnesau fferm sy'n cynnig cyflogaeth.

**Diwygio'r Rheolau Sefydlog (6.20)**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26:*

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Tachwedd 2000;
ii. yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;
iii. yn penderfynu y dylent ddod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 6.20**

1. Yn is-baragraff (i) ar ôl "hynny" ychwaneger "un ai"

2. Yn is-baragraff (ii) ychwanegu "trwy" cyn "alw" ac ychwanegu "neu" ar ôl "wyddor"

3. Cynnwys is-baragraff newydd:
"(iii) os bydd y Llywydd yn penderfynu hynny, drwy godi dwylo. Os yw tri neu fwy o Aelodau'n gwrthwynebu penderfyniad y Llywydd, cynhelir cofrestr yn nhrefn yr wyddor."

***Diwygio Rheol Sefydlog (4)***

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a rheol sefydlog 26:
i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2000;
ii. yn cymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;
iii. yn penderfynu y dylai'r diwygiadau ddod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 4 – Atodiad**

**1. Yn yr adran *Cyffredinol*, dileu:**
"I. Wrth gofnodi buddiant, mae'n ofynnol i Aelod gofrestru bodolaeth contract neu ffynhonnell yr incwm neu'r fantais, a dangos y symiau cysylltiedig, o fewn £5000."

**2. Ailrifo'r paragraffau sy'n dilyn yn yr adran *Cyffredinol*.**

**d/s: mae'n rhaid cael mwyafrif o 2/3 cyn y gellir newid y Rheolau Sefydlog**

**Diwygio Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 1999**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 16(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 3 yn diwygio Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 1999 a e-bostiwyd at yr holl Aelodau ar 30 Tachwedd 2000, fel a ganlyn:*

Dileu adrannau 9.1 a 9.2 a rhoi’r canlynol i mewn:

"9.1 Mae gan yr Aelodau hawl i hawlio Lwfans Costau Swyddfa i dalu iddo/iddi’r costau cynnal swyddfa yn yr etholaeth pan fydd y costau hynny yn cael eu tynnu o anghenraid mewn perthynas â’i (d)dyletswyddau fel Aelod o’r Cynulliad.

9.2 Caiff yr Aelodau hawlio swm o’r Lwfans Costau Swyddfa nad yw’n fwy na £9,300 yn y flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2000."

**d/s: rhaid cael mwyafrif o 2/3 cyn y gellir cyflwyno’r newid**

**Mabwysiadu cyllideb y Cynulliad**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.3, yn mabwysiadu’r gyllideb derfynol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2001-2002, 2002-2003 a 2003-2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mercher 29 Tachwedd 2000 gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart.

**Dadl Fer: (i bara am 30 munud)**
**Richard Edwards (Preseli Penfro); Mynediad i Bawb**

**Disgwylir i’r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**